

Sut i arbed arian a defnyddio llai o ynni

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i leihau eich biliau nwy ac ynni.

Mae'n dangos ffyrdd o leihau eich defnydd o ynni a thalu llai am yr ynni rydych yn ei ddefnyddio.

Sut y gallaf ddefnyddio llai o ynni?

Gwnewch eich cartref yn fwy effeithlon

Gall gwelliannau i'ch cartref megis insiwleiddio gwell leihau eich biliau ynni. I weld pa wahaniaeth y gallant ei wneud, dechreuwch gydag **archwiliad ynni cartref**. Ewch i **hec.est.org.uk** am fanylion.

Hefyd, rhowch gynnig ar y **Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes**. Mae hon yn llinell gymorth genedlaethol sy'n cael ei rhedeg gan y chwe phrif gyflenwr ynni. Mae'n rhoi cyngor ar fudd-daliadau, grantiau insiwleiddio'r cartref, tariffau is ac opsiynau talu arbennig. Ffoniwch y llinell gymorth am ddim ar **0800 336699**, neu ewch i'r wefan, **www.homeheathelpline.org.uk**

Yna, edrychwch ar fentrau'r llywodraeth a allai helpu i dalu am welliannau i'ch cartref:

- Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) a'r Fargen Werdd.
- Yng Nghymru, Nyth.
- Yn yr Alban, Home Energy Efficiency Programme Scotland (HEEPS).


Ar gyfer Cymru a Lloegr, ffoniwch **0300 123 1234**.

Yn yr Alban, ffoniwch **0808 8082282**.



Dilynwch yr argymhellion hyn er mwyn osgoi gwastraffu ynni

1. Defnyddiwch amserydd ar eich system gwres canolog. Trefnwch i'r gwres a'r dŵr poeth ddod ymlaen pan fydd eu hangen yn unig.
2. Os oes gennych danc dŵr poeth, gosodwch y thermostat ar 60oC (140oF).
3. Tynnwch eich llenni gyda'r nos er mwyn atal gwres rhag dianc drwy'r ffenestri. Chwiliwch am ddrafftiau hefyd.
4. Cofiwch ddiffodd goleuadau pan fyddwch yn gadael ystafell.
5. Defnyddiwch fylbiau golau sy'n arbed ynni.
6. Peidiwch â gadael teclynnau mewn modd segur na gadael gliniaduron a ffonau symudol yn y plwg gwefru yn ddiangen.
7. Ceisiwch lenwi'r peiriant pan fyddwch yn golchi'r llestri neu'n golchi a sychu dillad. Mae llwyth cyfan yn defnyddio llai o ynni na dau lwyth hanner llawn.
8. Ceisiwch ferwi'r dŵr sydd ei angen arnoch yn unig.
9. Diffoddwch y tapiau yn iawn - mewn un wythnos gall tap dŵr poeth sy'n gollwng wastraffu digon o ddŵr poeth i lenwi hanner bath.
10. Sychwch eich dillad yn yr awyr agored yn ystod tywydd braf.



Sut galla i dalu llai am yr ynni rwy'n ei ddefnyddio?

Eich cyflenwr

Siaradwch â'ch cyflenwr neu edrychwch ar eu gwefan i weld pa dariffau sydd ar gael. Gallant gael hyd at bedwar tariff craidd ar gyfer nwy a phedwar ar gyfer trydan.

Mae ein newidiadau diweddar yn golygu bod yn rhaid i'ch bil gynnwys gwybodaeth wedi'i phersonoli am dariff rhataf eich cyflenwr a faint y gallech ei arbed. Bydd y bil hefyd yn rhoi amcangyfrif i chi o'r costau am y flwyddyn.

Cyflenwyr eraill

Defnyddiwch wefan cymharu prisiau i weld a all cyflenwr arall gynnig bargaen well i chi. Mae gennym restr o wasanaethau cymharu achrededig ar ein gwefan, www.ofgem.gov.uk.

Darllenwch ein taflen '**Sut i newid cyflenwr trydan**' am ragor o wybodaeth am y broses o newid.



Edrychwch i weld a ydych yn gymwys i gael ad-daliad

Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Mae rhai cyflenwyr ynni yn cynnig ad-daliadau a chymorth i bobl sydd wedi cyrraedd oedran pensiwn, sy'n anabl, sydd â phroblemau iechyd difrifol neu sydd ar incwm isel. Ffoniwch eich cyflenwr i weld a ydych yn gymwys, neu ewch i www.adviceguide.org.uk

Taliad Tanwydd Gaeaf

Gallech gael rhwng £100 a £300 i helpu i dalu eich biliau gwresogi os cawsoch eich geni ar 5 Ionawr 1952 neu cyn y dyddiad hwnnw. Hwn yw'r Taliad Tanwydd Gaeaf.

Rydych fel arfer yn cael y Taliad Tanwydd Gaeaf yn awtomatig os rydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth neu fudd-dal nawdd cymdeithasol (nid Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth Gyngor neu Fudd-dal Plant). Os rydych yn gymwys ond nad ydych yn cael eich talu yn awtomatig, bydd angen i chi wneud cais.

Ffoniwch llinell gymorth y Taliad Tanwydd Gaeaf ar **08459 151515** i weld a ydych yn gymwys.



Rhagor o wybodaeth

Darllenwch ein llyfryn mwy manwl ar gael y fargen ynni orau: www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/energy-best-deal-booklet-2013-14

Os oes angen cyngor arnoch am eich biliau ynni, ewch i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol neu ewch i www.adviceguide.org.uk

Neu cysylltwch â gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar **08454 04 05 05** (Cymraeg) neu **08454 04 05 06** (Saesneg).

Ar gyfer ffôn testun, deialwch **18001** ac yna rhif y llinell gymorth.